# Adroddiad blynyddol y llywodraethwyr i rieni









## Neges gan y Pennaeth

Braint yw cyflwyno adroddiad blynyddol y Ffederasiwn ar gyfer 2023 – 2024 gan gyflwyno ein gweithgarwch, ein llwyddiannau a'n gweledigaeth ni wrth ddatblygu'r Ffederasiwn ymhellach.

Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i chi am eich holl gefnogaeth dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym yn hynod ffodus o gael plant mor arbennig yma fel disgyblion yma yn y ddwy ysgol. Felly hyderaf eu bod yn hapus, yn datblygu'n addysgol, emosiynol a chymdeithasol. Ein gweledigaeth yma yn yr ysgol yw "Plant Llawen a Llwyddiannus".

Ein ffocws ni ydi sicrhau profiadau ac addysg o'r radd flaenaf i'n disgyblion. Braf yw arsylwi'r disgyblion yn dysgu - mae yna gynnwrf yn ein dosbarthiadau, mae trafodaethau'r disgyblion yn ddiddorol ac yn fwyfwy gwybodus ac mae eu balchder o fod yn ddysgwyr dwyieithog yn amlwg iawn yn yr ysgol.

Rydym mewn cyfnod hynod o gyffrous o ran addysg wrth i ddatblygu'r cwricwlwm ac addysgeg gyffrous, gyfredol a llwyddiannus o fewn y Ffederasiwn. Mae'r blynyddoedd diwethaf wedi bod yn flynyddoedd ble mae'r ysgol wedi arbrofi gyda gwahanol fodelau addysgeg a dwi wrth fy modd yn gweld ein gweledigaeth ar waith o fewn y Ffederasiwn. Mae'r dysgu yn gyffrous o fewn y Ffederasiwn!

Hoffwn ddiolch i'r Corff Llywodraethol am eu hymroddiad gwirfoddol i'r ysgol. Maent oll yn chwarae rhan hollbwysig yn herio, holi a chynnig syniadau er mwyn sicrhau'r gorau i'n plant. Rwy'n gwerthfawrogi'r cymorth a'r gefnogaeth gan rieni, pentrefwyr a llywodraethwyr wrth inni barhau i ddatblygu a gwella ein darpariaeth

Mae ein drws ni wastad ar agor i chi rieni a chofiwch i gysylltu os oes yna unrhyw beth hoffech chi drafod, unrhyw ofid yn pigo neu unrhyw ddathliad hoffech chi rannu. Plant hapus sydd yn dysgu ac mae sicrhau bod disgyblion Ysgol Dyffryn Dulas ac Ysgol Pennal yn hapus yn allweddol i fy ngweledigaeth i ar gyfer yr ysgol.

Yn Ysgol Dyffryn Dulas ac Ysgol Pennal mae'r disgyblion yn ffrindiau da sydd yn dangos Cwrteisi a Pharch. Yn y ddwy ysgol rydym ni'n meithrin dinasyddion y dyfodol, yn creu arweinwyr sydd am newid y byd ac yn annog ein disgyblion i ddilyn eu breuddwydion ac i fod yn ddysgwyr gydol oes!

Edrychaf ymlaen eleni i barhau gyda gweithgarwch y blynyddoedd a fu ac i ddatblygu y Ffederasiwn ymhellach! Mae gennym ni weledigaeth gref a braint fydd arwain y weledigaeth yma ar y cyd gyda'r disgyblion, staff, Llywodraethwyr a chi rieni!.

Mrs Nia Wyn Thomas-Evans
Pennaeth



# Neges gan y Cadeirydd

Annwyl Rieni,

Mae'n fraint ac yn anrhydedd i mi unwaith eto eleni, fel Cadeirydd y Corff Llywodraethol gyflwyno i chi Adroddiad Blynyddol Ffederasiwn Ysgol Dyffryn Dulas, Corris ac Ysgol Pennal 2023 - 2024. Dyma gyfle ichi gael golwg ar waith o ddydd i ddydd y Ffederasiwn, ei hystadegau a'i chyflawniadau am y flwyddyn a fu.

Yn gyntaf mae'n ddyletswydd arnaf i ddiolch yn ddiffuant i'r Corff Llywodraethol am eu cefnogaeth diflino, ac am fod bob amser yn barod i dorchi llewys i sicrhau llwyddiant y Ffederasiwn dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae cyfnodau eitha heriol wedi bod ond mae'r Corff bob amser yn gefn ir Pennaeth ar holl staff.

Dyma gyfle hefyd i ddiolch i'r Pennaeth Mrs Nia Thomas-Evans a staff y Ffederasiwn am eu hymroddiad di ffael. Mae arweiniad Mrs Nia Thomas-Evans yn gryf a chadarn, ac yn dangos parch i holl aelodau staff.

Hoffwn ddiolch i Ffrindiau'r Ysgol am eu hymroddiad diflino hwythau i gynorthwyo'r Ffederasiwn mewn amryw ffyrdd. Mae'n rhaid hefyd ddiolch i'r rhieni am gefnogaeth cadarn ac i'r ddwy gymuned am gefnogaeth arbennig i sicrhau llwyddiant y Ffederasiwn.

Fel Cadeirydd rwyf yn hynod falch o Ffederasiwn Ysgol Dyffryn Dulas, Corris ac Ysgol Pennal, lle mae'r holl disgyblion yn cael cefnogaeth i gyflawni eu llawn potensial ar gyfer eu dyfodol a dyfodol eu cymunedau.

Ein nôd fel Ffederasiwn yw sicrhau fod y plant yn llawen a hapus a'u bod yn cyrraedd eu llawn potensial.

Mr Dennis B Jones
Cadeirydd y Corff Llywodraethol













# Aelodaeth Corff y Llywodraethwyr (Medi 2023 – Gorffennaf 2024

| Enw a Swydd | Yn cynrychioli: |
|---|---|
| Mr Dennis Jones - Cadeirydd | Cynrychiolydd Cymunedol Corris |
| Mrs Corina Owen-Davies – Is gadeirydd | Rhieni Pennal |
| Ms Nia Wyn Thomas - Evans | Pennaeth |
| Mrs Kayla Lockett | Staff dysgu Pennal |
| Mrs Eirlys Jones | Staff dysgu Corris |
| Mrs Janet Owen - Durham | Staff ategol Pennal |
| Mrs Elen Court | Staff ategol Corris |
| Mr Rhys Parry | Cyngor Cymuned Pennal |
| Mrs Ann Roberts | Cynrychiolydd Cymunedol Pennal |
| Mrs Sharon Wells | Cyngor Cymuned Corris |
| Mrs Mirain Breese | Rhieni Pennal |
| Mr Matt Ward | Rhieni Corris |
| Mr Nick Young | Rhieni Corris |
| Cyng Dewi Owen | AALl Pennal |
| Cyng John Pugh Roberts | AALl Corris |
| Mrs Eirian Jones - Clerc | |

Clerc y Corff Llywodraethol yw Mrs Eirian Jones. Gellir cysylltu â Mrs Jones drwy gysylltu â'r Ysgol.
Gellir cysylltu â Chadeirydd y Corff drwy anfon nodyn wedi ei gyfeirio iddo drwy law Clerc y Corff


Mae'r Corff yn adlewyrchu trawsdoriad o'n cymuned lleol, ac etholir Cadeirydd newydd ar ddechrau pob blwyddyn addysgol. Prif nod y corff yw sicrhau bod pob plentyn yma yn Ffederasiwn Ysgol Dyffryn Dulas ac Ysgol Pennal yn cael eu herio i gyflawni eu llawn potensial drwy wireddu polisîau yr Awdurdod Addysg Lleol a deddfwriaeth sy'n cael ei osod gan Llywodraeth Cymru.
Mae'r Llywodraethwyr yn cyfarfod o leiaf unwaith pob tymor, ac yn ystod y cyfarfodydd, mae holl staff yr ysgol yn cael cyfle i gyflwyno gwybodaeth am bresenoldeb a chynnydd disgyblion, datblygiadau cwricwlaidd, materion staffio ac ati. Rol y Llywodraethwyr yw holi a herio y staff ynglyn a chynlluniau, gweithgareddau a'u heffaith. Gwirfoddol yw bod yn aelod o'r Llywodraethwyr, felly diolchwn i'r Corff am eu hamser a'u hymroddiad i'r ysgol.
Pan bydd cyfnod cynrychiolydd rhiant ar y Corff yn dod i ben, cynhelir etholiad i rieni. Byddwch yn derbyn gwybodaeth llawn am y broses yma y tro nesaf bydd angen ethol rhiant

## Cysylltu â'r Llywodraethwyr

Croesawn eich gohebiaeth a'r Llywodraethwyr ar bob achlysur; gallwch gysylltu gydag unrhyw ymholiad neu sylwad yr hoffwch ei holi/rannu a 'r Corff Llywodraethol. Derbynnir gohebiaeth a'r Cadeirydd a'r Corff drwy law y clerc, Mrs Eirian Jones.
Nid yw'n arferol bellach i gynnal cyfarfod blynyddol a rhieni, oni bai eich bod chi yn dymuno cynnal cyfarfod. Mae modd cynnal hyd at dri chyfarfod y flwyddyn a rhieni ar ol cael ei ddeisebu. Er mwyn cynnal y cyfarfod, mae'n rhaid i isafswm o rieni 10% o'r disgyblion sydd wedi'u cofrestru arwyddo'r ddeiseb gan nodi pam eu bod eisiau cyfarfod. Rhaid bod y cyfarfod y gofynnir amdano yn cael ei gynnal at ddibenion trafod mater sy'n ymwneud a 'r ysgol.

## Llawlyfr y Ffederasiwn a’r Prosbectws

Mae llawlyfr newydd sbon ar gyfer y Ffederasiwn
ac mae pob rhiant wedi cael copi digidol.
Gellir cael copi caled gan y Pennaeth.




## Polisiau

Yn yr un modd trafodwyd, addaswyd a diweddarwyd pob polisi. Adolygir pob polisi ysgol un ai’n flynyddol neu fel rhan o gylch tair blynedd ac maent ar gael yn yr ysgol ac ar wefan yr ysgol.

## Iechyd a Lles

Yn ogystal â chynnal cwricwlwm statudol Addysg Gorfforol, bydd plant y Ffederasiwn yn cystadlu mewn rhaglen gynhwysfawr o athletau a mabolgampau yn erbyn plant yr ysgolion yn y dalgylch a thu hwnt.
Mae’r ysgol yn canolbwyntio ar agweddau o iechyd a lles o fewn gwaith thematig dosbarth ac yn ymgorffori ardaloedd tu allan i mewn i brofiadau dysgu dyddiol.







## Lles

Mae lles wedi bod yn flaenoriaeth i’r ysgol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Rydym yn parhau i weithio’n agos gyda’r Swyddog Lles yr awdurdod i gefnogi disgyblion a theuluoedd.
Mae gan yr ysgol bolisi o ffrwythau yn unig fel byrbrydiau amser chwarae. Rydym yn tyfu ffrwythau a llysiau. Mae contractwyr cegin wedi dylunio eu bwydlen yn benodol i gwrdd â gofynion Blas am Oes Llywodraethwyr Cymru. Hyrwyddir bwydlen iach ar amser cinio. Dŵr yn unig sydd yn cael ei ganiatáu.
O fewn y Ffederasiwn, ‘rydym yn ymfalchio o berthyn i Rwydwaith Ysgolion Iach Cymru.
Mae’r disgyblion yn mwynhau cael rhedeg o amgylch y trac er mwyn cael saib fach o’r ystafell ddosbarth!
Cynhelir sesiynau Ioga hefyd ym mhob dosbarth.
Bydd Blwyddyn 2-6 yn cael sesiynau nofio yn Nhymor y Gwanwyn bob blwyddyn.
Cynhelir gweithdai Eginiad Cymru yn Nhymor yr Hydref gyda disgyblion Dosbarthiadau 7-11oed.

**PLANT LLAWEN A LLWYDDIANNUS**



## Trefniadaeth Dosbarth

**Ysgol Dyffryn Dulas**
Meithrin – Blwyddyn 2 Mrs Nia Rowlands
Blwyddyn 3 – 6 Mrs Eirlys Wyn Jones

**Ysgol Pennal**
Meithrin – Blwyddyn 2 Mrs Kayla Lockett
Blwyddyn 3 - 6 Mrs Miriam Jones

## Trefn y Dydd

Mae croeso i chwi ymweld â'r ysgol unrhyw amser, ond dylid yn gyntaf trefnu apwyntiad gyda'r Pennaeth er mwyn sicrhau digon o amser i drafod. Rydym oll yn cydweithio er lles pob plentyn yn yr ysgol

Disgwylir i'r plant gyrraedd yr ysgol ar ôl 8.50 y bore yn barod i fod yn y dosbarth am 9.00. Mae goruchwyliaeth o 8.50 ymlaen, a ni dderbynnir cyfrifoldeb am y disgyblion cyn hyn oni bai eu bod yn mynychu'r Clwb Brecwast. Os yr ydych yn debygol o fod yn hwyr yn codi eich plant ar ddiwedd dydd, yna gwnewch pob ymdrech i'n hysbysu ni o.g.y.dda er mwyn i ni leddfu ofnau'r plentyn

## Iaith

Sicrhau, trwy ddarpariaeth a threfniadaeth feithrin bwrpasol a sensitif, y rhoddir i bob plentyn sylfaen gadarn yn y Gymraeg er mwyn eu galluogi i gyrraedd y nod o ddwyieithrwydd llawn maes o law.

### Dosbarth 3 - 7 oed

Adeiladu ar y sylfeini a osodwyd i'r Gymraeg drwy'r addysg feithrin. Cadarnhau a datblygu mamiaith y plentyn o ddysgwyr Cymraeg ac ymestyn gafael y plentyn o gartref Cymraeg ar y Saesneg.

### Dosbarth 7 – 11 oed

Cadarnhau datblygu Cymraeg a Saesneg pob plentyn yn eu holl agweddau goddefol a gweithredol, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'n rhwydd ac yn hyderus yn y ddwy iaith pan yn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Gwneir darpariaeth arbennig ar gyfer hwyr-ddyfodiaid.

## Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd

Mae'r Ffederasiwn wedi ymrwymo yn llawn i Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd. Mae Siarter Iaith Gymraeg Ysgolion Cynradd Gwynedd yn deillio o waith manwl y Gweithgor Dylanwadu ar Ddefnydd Cymdeithasol Plant o'r Gymraeg. Ei phrif ddiben yw sicrhau bod y Gymraeg, a defnydd cymdeithasol ein plant a phobl ifanc ohoni yn ffynnu. Defnyddir saith nôd y siarter fel offerynnau i fesur cynnydd yn y defnydd o'r iaith ynghyd â llwyddiant cynlluniau ein hysgolion.




## Gwaharddiadau

Ni fu gwaharddiadau yn ystod y flwyddyn
Mae copi o drefniadau'r Awdurdod ar gyfer gwahardd disgyblion ar gael yn yr ysgol

## Cyfleusterau toiled a'r trefniadau i'w glanhau

Mae gan yr ysgol nifer addas o doiledau ar gyfer y disgyblion sydd wedi eu cofrestru. Mae'r toiledau yn cael eu harchwylio yn ystod y dydd, a chânt eu glanhau yn ddyddiol gan wasanaeth glanhau'r Awdurdod.

## Dysgu ac Addysgu

Yn ystod y flwyddyn parhaodd y ddwy ysgol â'i gweithrediad gyda'r Cwricwlwm i Gymru ar gyfer disgyblion 3-11 oed. Yn unol â'r disgwyliadau ar gyfer pob ysgol yng Nghymru, cymerwyd camau pellach i ddatblygu'r Cwricwlwm i Gymru trwy ddatblygu coeden pedwar diben y cwricwlwm. Rhoddwyd mwy o gyfleoedd i'r disgyblion wneud penderfyniadau ynglyn â'u dysgu eu hunain.

Mae'r berthynas waith i'w chanmol yma yn y Ffederasiwn. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd nifer o weithdai gan gynnwys Mr Robin Williams (STEM), Elin Crowley (artist yn creu lamplenni), a Caru Celf yn Nhymor yr Haf yn gwneud gwaith celf a drama ar y thema Gemau Olympaidd.
Yn ogystal â hyn, mynychodd pob aelod o staff nifer o amryw gyrsiau ar ddatblygiadau'r cwricwlwm yn ystod y flwyddyn.
Drwy ein hadnabyddiaeth o anghenion bob plentyn, ein nôd yma yn y Ffederasiwn yw ymateb yn rhagweithiol i sicrhau bod pob disgybl unigol yn cyrraedd eu llawn potensial, beth bynnag eu gallu, a thyfu'n ddysgwyr annibynnol sy'n aelodau gwerthfawr o'n cymuned.









## Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mrs Kayla Lockett yw Cydlynydd ADY Ysgol Pennal, a Mrs Eirlys Wyn Jones yw Cydlynydd ADY Ysgol Dyffryn Dulas.
Mrs A O Roberts yw'r Llywodraethwraig dynodedig ADY.

Amcan yr ysgol yw adnabod plant ag anghenion dysgu ychwaenol a chynhwysiad (ADYaCh) yn gynnar, a rhoi sylw bwriadus i ddisgyblion sydd ar y gofrestr. Ein gobaith yw cynnig y ddarpariaeth orau drwy gydweithio gyda'r cartref a sicrhau bod pob unigolyn yn cyrraedd eu llawn potensial. Yn yr ysgol, gwneir hyn drwy ddarparu cymorth ychwanegol o fewn yr ystafell ddosbarth, neu mewn grwpiau bychain/yn unigol drwy dargedu a chynlluniau ymyrraeth. Ceir hefyd cymorth arbenigwyr yr awdurdod lle'n briodol. I'r perwyl hwn, dilynir y polisi ym mhob achos. Caiff Cynlluniau Datblygu Unigol eu paratoi a'u hadolygu gyda'r rhieni/gwarchodwyr, gan gynnwys llais y plentyn. Mae pob plentyn sydd ar y gofrestr wedi gwneud cynnydd llynedd. Ymgynghorir â rhieni a'u gwahodd i fynychu cyfarfodydd gyda'r Cydlynydd ADY a'r gwasanaethau cymorth, gan gynnwys adolygiad blynyddol statudol. Mae Map Darpariaeth ADY yn nodi y ddarpariaeth mae'r ysgol yn ei gynnig i ddisgyblion y Ffederasiwn.

# Cynllun Datblygu Ysgol

Mae gan yr ysgol Gynllun Datblygu, sef dogfen weithiol sy'n adnabod ac yn mynd i afael â'n blaenoriaethau sy'n deillio ô'n gweithdrefnau hunan-werthuso. Mae'r cynllun datblygu yn ystyried blaenoriaethau lleol a Chenedlaethol, yn ogystal â dadansoddi ein darganfyddiadau ar ôl monitro a craffu ar waith plant. Bydd ein targedau yn cael eu gwerthuso a'u addasu yn gyson er mwyn sicrhau eu bod yn briodol ar gyfer cyrraedd ein nôd. Mae aelodau o'r Corff Llywodraethol yn gyfrifol am fonitro'r cynllun hunan-arfarnu. Yn ystod cyfarfodydd, byddent yn adrodd, holi a herio ar ddatblygiad yr ysgol yn unol â'r Cynllun Datblygu er mwyn sicrhau bod y blaenoriaethau yn cael eu gweithredu'n effeithiol

**Y 3 prif flaenoriaeth ar gyfer 2023 – 2024 oedd :**

BLAENORIAETH 1 - Ehangu'r cyfleoedd i ddisgyblion ymarfer a chymhwyso eu sgiliau trawsgwricwlaidd a chyfannol o fewn profiadau dysgu dilys

BLAENORIAETH 2 - Datblygu ymhellach ddysgu yn yr awyr agored er mwyn targedu ystod o sgiliau mewn dull holistaidd

BLAENORIAETH 3 - Parhau i arbrofi gyda gweithdrefnau monitro cynnydd disgyblion a mireinio ymhellach rhai strategaethau penodol o asesu ffurfiannol













# Presenoldeb

**Presenoldeb 2023-2024 :**
Ysgol Dyffryn Dulas 93.9%
Ysgol Pennal 93.4%

**Presenoldeb 2022-2023:**
Ysgol Dyffryn Dulas 89.9%
Ysgol Pennal 93.8%

Targed Presenoldeb Ysgol 2023-2024 : 95%+

Er bod canran absenoldebau anawdurdodedig yn isel, byddem yn parhau i fonitro pob achos yn unigol er mwyn datrys y broblem. Rydym hefyd yn rhoi sylw manwl i brydlondeb, ac yn cyd-weithio â theuluoedd er mwyn gwella a datrys unrhyw broblem.




















# Y Gymuned

Rydym yn ffodus iawn o gael gweithio yn agos â nifer o sefydliadau yn y gymuned leol a rydym yn rhan o nifer o weithgareddau a phartneriaethau sydd wedi ei sefydlu er sawl blwyddyn.
Rydym yn hynod ffodus o leoliad yr ysgol, ac o harddwch naturiol yr ardal leol sydd hefyd yn llawn hanes.
Rydym yn gwneud y mwyaf o'r ardal, i gyfoethogi profiadau'r plant yn yr awyr agored.
Drwy'r cysylltiadau yma gyda gwahanol aelodau o'r gymuned, rydym yn meithrin plant i fod yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus, yn ogystal â datblygu rôl gymunedol a dinesig yr ysgol.
Rydym yn ffodus iawn o gael cyd-weithio yn agos â PC Sion a sydd yn ymweld â ni'n rheolaidd i sgwrsio a rhoi cyflwyniadau i'r disgyblion i gefnogi ein cwricwlwm Iechyd a Lles.











Mae gennym ni berthynas agos iawn ag Ysgol Uwchradd Tywyn ac Ysgol Bro Hyddgen, ac yn sicrhau cyfleoedd pontio i flynyddoedd 5 a 6 cyn iddynt symud i fyny i'r ysgol uwchradd. Drwy hyn, mae'n gwneud y newid yn haws iddynt adael y cynradd cyn dechrau ar y cam nesaf eu haddysg.
Yn ogystal â bod yn ddinasyddion gwerthfawr i'r pentref, rydym yn hybu'n holl ddisgyblion i fod yn ddinasyddion byd-eang, sydd yn falch o'u Cymreictod.

Yn ystod mis Mai, daeth y cyfle i ddisgyblion Blwyddyn 4 – 6 gael ymweld â Glan Llyn. Cafwyd dau ddiwrnod llawn hwyl wrth gymryd rhan mewn amryw o weithgareddau yn yr awyr agored. Er bod pawb wedi blino yn ofnadwy, bu'n dau ddiwrnod gwerth chweil.

Bu hefyd llwyddiant i sawl disgybl yn Eisteddfod yr Urdd 2024 yn Meifod gan gynnwys James, Cali a Wren. Cystadlodd nifer o'r ysgol fel rhan o gystadleuthau unigol a thorfol, ac edrychwn ymlaen i gael cystadlu unwaith eto eleni.

## Ysgol Pennal

- Eglwys Pennal
- Partneriaeth Pennal 2050
- Menter y Glan
- Sioe Pennal
- Cneifio Cyflym Pennal




## Ysgol Dyffryn Dulas

- Cylch Meithrin Corris
- Clwb Chwarae Corris
- Clwb pel droed y Chwarelwyr
- Sioe Corris
- Rheilffordd Corris
- Canolfan Grefftau Corris









## Cysylltiadau a'r Gymuned a Gweithgareddau

Cyd-weithio ar draws y dalgylch
Prynhawniau coffi Macmillan i godi arian
Gwasanaethau Agor y Llyfr misol yn cael eu cynnal gan wirfoddolwyr
Gwasanaethau Diolchgarwch cyhoeddus
Gwasanaethau cristingl cyhoeddus Eglwys Pennal
Gwasanaeth Nadolig yn Eglwys Pennal
Parti Nadolig y Ffederasiwn
Cinio Nadolig i'r disgyblion yn yr ysgol
Cymryd rhan yn Ffair Nadolig Canolfan Pennal
Ymweliad tymhorol y llyfrgell deithiol
Ymweliadau y nyrs ysgol / nyrs clyw / arbenigwyr anghenion arbennig
Cyngerdd Gŵyl Ddewi
Cefnogi Diwrnod Plant Mewn Angen
Dyddiau trosglwyddo i'r Uwchradd i Flwyddyn 6
Eisteddfod Cylch a Sir: Canu, llefaru, parti canu a llefaru a Chelf a Chrefft
Athletau'r Urdd
Cynhaliwyd Clwb yr Urdd i ddisgyblion Blwyddyn 2 i 6

Sioe Corris yn yr ysgol
Cystadlu yn Sioe Pennal
Cyflwyniadau Diogelwch y Ffordd
Gwersi nofio/gymnasteg ar y cyd yng Nghanolfan Hamdden Machynlleth yn ystod tymor y Gwanwyn.
Cafwyd cyflwyniadau tymhorol gan aelod o'r heddlu, PC Sion
Trip ysgol dosbarthiadau 3-7 oed i Sioe 'Gwlad y Rwla' yn Theatr y Werin a taith ar trên bach Rheidol
Trip ysgol dosbarthiadau 7-11 oed i Sw Caer
Rasio'r Trên blynyddol yng Nghorris.
Nosweithiau rhieni yn ystod y flwyddyn.
Diwrnod mabolgampau y Ffederasiwn
Cystadlu yn 'Sportshall Meirionnydd'
Clybiau garddio dan arweiniad gwirfoddolwyr
Barbeciw Haf Ysgol Pennal
Gweithdai STEM gyda Robin Williams
Gweithdai Celfyddydol gydag Elin Crowley
Gweithdai Dawns a Chelf gyda Caru Celf
Gweithdai barddoni gydag Anni Llyn

## Ffrindiau'r Ysgol

Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd amrywiol weithgareddau yn y ddwy ysgol i godi arian ar gyfer prynu adnoddau newydd

- ipads
- llyfrau ysgol
- offer tu allan
- offer gwaith coed



Ffederasiwn Ysgol Dyffryn Dulas ac Ysgol Pennal
"Plant Llawen a Llwyddiannus"

# Datganiad ariannol Ysgol Dyffryn Dulas

## 2185 - Corris

| CYFRIFON TERFYNOL 2023/2024 | Cyllideb 2023/2024 | Addasiadau | Cyllideb Terfynol 2023/2024 | Cyfanswm Gwariant 2023/2024 | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|---|---|
| **GWEITHWYR** | | | | | |
| Cyflogau- | | | | | |
| Athrawon | £174,807 | £3,528 | £178,335 | £177,016 | £1,319 |
| Athrawon Llanw | £9,087 | £0 | £9,087 | £10,888 | -£1,801 |
| Staff Ategol - | | | | | |
| Amser Cinio | £4,466 | -£1 | £4,465 | £3,924 | £541 |
| Cynorthwywyr Meithrin | £28,141 | £14,061 | £42,202 | £36,707 | £5,495 |
| Cymorth Gweinyddol | £5,004 | £0 | £5,004 | £2,091 | £2,913 |
| Hyfforddwr/Goruchwylio/Cyffredinol | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| Clerc Llywodraethwyr | £1,428 | £0 | £1,428 | £689 | £739 |
| Gofalwr (Goramser) | £700 | £0 | £700 | £0 | £700 |
| **ADEILADAU** | | | | | |
| Cynnal & Chadw - cyfrifoldebau hanesyddol | £1,500 | £0 | £1,500 | £986 | £514 |
| Cynnal & Chadw - gwasanaeth eiddo | £3,825 | £0 | £3,825 | £3,825 | £0 |
| CLG Gwasanaeth Eiddo | £1,583 | £0 | £1,583 | £1,583 | £0 |
| Costau Ynni - | | | | | |
| Trydan | £10,000 | £0 | £10,000 | £10,562 | -£562 |
| Biomass | £8,000 | £0 | £8,000 | £2,571 | £5,429 |
| Nwy | £800 | £1,200 | £2,000 | £497 | £1,503 |
| Dwr | £2,000 | -£1,200 | £800 | £878 | -£78 |
| Cynllun Rheoli Carbon | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| Contract Glanhau | £19,600 | £0 | £19,600 | £19,380 | £220 |
| Contract Gofalu | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| Contract Cynnal Tir | £2,118 | £0 | £2,118 | £2,120 | -£2 |
| Defnyddiau Glanhau | £1,000 | £0 | £1,000 | £205 | £795 |
| Offer Ymladd Tan | £100 | £0 | £100 | £110 | -£10 |
| Trethi | £4,120 | £0 | £4,120 | £4,120 | £0 |
| **CYFLENWADAU A GWASANAETHAU** | | | | | |
| Lwfans y Pen | £7,700 | £1,736 | £9,436 | £6,744 | £2,692 |
| Dodrefn | £65 | £0 | £65 | £0 | £65 |
| Post | £75 | £0 | £75 | £0 | £75 |
| Ffôn / Ffacs / Rhyngrwyd | £200 | £0 | £200 | £55 | £145 |
| CLG Swyddfa Ardal | £2,331 | £1 | £2,332 | £2,332 | £0 |
| CLG Gwasanaeth Cyllidol | £453 | £0 | £453 | £453 | £0 |
| CLG Rheoli Banc, Taliadau, Incwm. | £150 | £0 | £150 | £150 | £0 |
| CLG Cyflogau | £356 | £0 | £356 | £356 | £0 |
| CLG Personel | £452 | £0 | £452 | £452 | £0 |
| CLG Arlwyaeth | £13,015 | £0 | £13,015 | £13,015 | £0 |
| CLG Llyfrgelloedd | £60 | £0 | £60 | £60 | £0 |
| CLG Archifau | £493 | £0 | £493 | £459 | £34 |
| Pyllau Nofio a Chwaraeon | £350 | £0 | £350 | £1,756 | -£1,406 |
| Gwasanaeth Cerdd | £1,700 | £296 | £1,996 | £3,590 | -£1,594 |
| CLG - Cefnogaeth Technoleg | £1,009 | £0 | £1,009 | £1,009 | £0 |
| Gwasanaeth Rhwydwaith Ysgolion | £4,087 | £0 | £4,087 | £4,087 | £0 |
| ARIAN WRTH GEFN | £0 | £31,550 | £31,550 | £0 | £31,550 |
| **CYFANSWM GWARIANT** | £310,777 | £51,169 | £361,946 | £312,670 | £49,276 |
| GOSODIADAU | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| RHODDION / INCWM ARALL | £0 | -£1,736 | -£1,736 | -£1,736 | £0 |
| INCWM GWE | £0 | -£12,675 | -£12,675 | -£12,675 | £0 |
| DEFNYDD O FALANSAU | -£35,824 | £35,824 | £0 | £0 | £0 |
| GRANTIAU | -£14,982 | -£8,562 | -£23,544 | -£26,822 | £3,278 |
| LLÔG AR FALANSAU | £0 | £0 | £0 | -£2,542 | £2,542 |
| **CYFANSWM** | £259,971 | £64,020 | £323,991 | £268,895 | £55,096 |

# Datganiad ariannol Ysgol Pennal

## 2207 - Pennal

| CYFRIFON TERFYNOL 2023/2024 | Cyllideb 2023/2024 | Addasiadau | Cyllideb Terfynol 2023/2024 | Cyfanswm Gwariant 2023/2024 | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|---|---|
| **GWEITHWYR** | | | | | |
| Cyflogau- | | | | | |
| Athrawon | £155,522 | £4,788 | £160,310 | £158,360 | £1,950 |
| Athrawon Llanw | £8,371 | £625 | £8,996 | £12,559 | -£3,563 |
| Staff Ategol - | | | | | |
| Amser Cinio | £6,472 | -£1 | £6,471 | £4,606 | £1,865 |
| Cynorthwywyr Meithrin | £15,778 | £102 | £15,880 | £17,508 | -£1,628 |
| Cymorth Gweinyddol | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| Hyfforddwr/Goruchwylio/Cyffredinol | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| Clerc Llywodraethwyr | £1,428 | £0 | £1,428 | £689 | £739 |
| Gofalwr (Goramser) | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| **ADEILADAU** | | | | | |
| Cynnal & Chadw - cyfrifoldebau hanesyddol | £800 | £0 | £800 | £244 | £556 |
| Cynnal & Chadw - gwasanaeth eiddo | £1,660 | £0 | £1,660 | £1,660 | £0 |
| CLG Gwasanaeth Eiddo | £914 | £0 | £914 | £914 | £0 |
| Costau Ynni - | | | | | |
| Olew | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| Trydan | £7,200 | £0 | £7,200 | £5,922 | £1,278 |
| Nwy | £2,000 | £0 | £2,000 | £826 | £1,174 |
| Dwr | £1,100 | £0 | £1,100 | £564 | £536 |
| Cynllun Rheoli Carbon | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| Contract Glanhau | £7,600 | £0 | £7,600 | £7,600 | £0 |
| Contract Gofalu | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| Contract Cynnal Tir | £516 | £0 | £516 | £520 | -£4 |
| Defnyddiau Glanhau | £500 | £0 | £500 | £346 | £154 |
| Offer Ymladd Tan | £50 | £0 | £50 | £134 | -£84 |
| Trethi | £3,530 | £0 | £3,530 | £3,530 | £0 |
| **CYFLENWADAU A GWASANAETHAU** | | | | | |
| Lwfans y Pen | £7,000 | £1,666 | £8,666 | £5,527 | £3,139 |
| Dodrefn | £65 | £0 | £65 | £0 | £65 |
| Post | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| Ffôn / Ffacs / Rhyngrwyd | £250 | £0 | £250 | £78 | £172 |
| CLG Swyddfa Ardal | £2,142 | £0 | £2,142 | £2,142 | £0 |
| CLG Gwasanaeth Cyllidol | £438 | £0 | £438 | £438 | £0 |
| CLG Rheoli Banc, Taliadau, Incwm. | £144 | £0 | £144 | £144 | £0 |
| CLG Cyflogau | £312 | £0 | £312 | £312 | £0 |
| CLG Personel | £397 | £1 | £397 | £397 | £0 |
| CLG Arlwyaeth | £11,404 | £0 | £11,404 | £11,404 | £0 |
| CLG Llyfrgelloedd | £60 | £0 | £60 | £60 | £0 |
| CLG Archifau | £493 | £0 | £493 | £459 | £34 |
| Pyllau Nofio a Chwaraeon | £350 | £0 | £350 | £776 | -£426 |
| Gwasanaeth Cerdd | £1,300 | £176 | £1,476 | £1,745 | -£269 |
| CLG - Cefnogaeth Technoleg | £758 | £0 | £758 | £758 | £0 |
| Gwasanaeth Rhwydwaith Ysgolion | £3,311 | £0 | £3,311 | £3,311 | £0 |
| ARIAN WRTH GEFN | £0 | £21,828 | £21,828 | £0 | £21,828 |
| **CYFANSWM GWARIANT** | £241,863 | £29,186 | £271,049 | £243,533 | £27,516 |
| GOSODIADAU | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| RHODDION / INCWM ARALL | £0 | -£1,666 | -£1,666 | -£1,666 | £0 |
| INCWM GWE | £0 | -£8,800 | -£8,800 | -£8,800 | £0 |
| DEFNYDD O FALANSAU | -£8,868 | £8,868 | | | £0 |
| GRANTIAU | -£11,566 | -£6,166 | -£17,732 | -£21,258 | £3,526 |
| LLOG AR FALANSAU | £0 | £0 | | -£1,252 | £1,252 |
| **CYFANSWM** | £221,429 | £21,422 | £242,851 | £210,557 | £32,294 |

# Dyddiadau Tymor 2024-2025

# GWYLIAU YSGOL
## 2024-2025

**TYMOR:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Hydref 2024 | 2 Medi 2024 | - | 20 Rhagfyr 2024 |
| Gwanwyn 2025 | 6 Ionawr 2025 | - | 11 Ebrill 2025 |
| Haf 2025 | 28 Ebrill 2025 | - | 21 Gorffennaf 2025 |

Bydd disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol ddydd Mawrth, 3 Medi, 2024.

**GWYLIAU:**

| | |
|---|---|
| 28 Hydref - 1 Tachwedd 2024 | (Hanner-Tymor) |
| 23 Rhagfyr 2024 - 3 Ionawr 2025 | (Gwyliau'r Nadolig) |
| 24 - 28 Chwefror 2025 | (Hanner-Tymor) |
| 14 - 25 Ebrill 2025 | (Gwyliau'r Pasg) |
| 5 Mai 2025 | (Calan Mai) |
| 26 – 30 Mai 2025 | (Hanner-Tymor) |
| 22 Gorffennaf - 29 Awst 2025 | (Gwyliau'r Haf) |

Bydd yr ysgolion yn ail-agor ddydd Llun, 1 Medi, 2025 i athrawon, a dydd Mawrth, 2 Medi i ddisgyblion (i'w gadarnhau).

Nifer o ddyddiau ymhob mis y bydd yr ysgolion ar agor:

| | |
|---|---|
| MEDI 2024 | 21 |
| HYDREF 2024 | 19 |
| TACHWEDD 2024 | 20 |
| RHAGFYR 2024 | 15 |
| IONAWR 2025 | 20 |
| CHWEFROR 2025 | 15 |
| MAWRTH 2025 | 21 |
| EBRILL 2025 | 12 |
| MAI 2025 | 16 |
| MEHEFIN 2025 | 21 |
| GORFFENNAF 2025 | 15 |
| | ---- |
| | 195 |
| | ---- |

2 Medi 2024 - Diwrnod dan Reolaeth Ysgol
4 Diwrnod Hyfforddiant

Daw hyn â'r nifer dyddiau ysgol i ddisgyblion i 190

Bydd ysgolion sy'n cau ar gyfer etholiadau yn agor am y nifer hynny o ddyddiau ar ddiwedd Tymor yr Haf.